



18 Mai 2016

Annwyl

**ATISN 10387 – Gwybodaeth am ‘Twf’**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 19 Ebrill yn holi am ‘bob gohebiaeth rhwng y Prif Weinidog ac Adran Addysg Llywodraeth Cymru am Cynllun TWF dros y 12 mis diwethaf’. Rydw i wedi dehongli hwn i olygu unrhyw gyfathrebu rhwng y Prif Weinidog a’i swyddogion â swyddogion Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru rhwng 19 Ebrill 2015 a 19 Ebrill 2016 ynglŷn â phrosiect ‘Twf’.

Amgaeir copi o'r wybodaeth rwyf wedi penderfynu ei rhyddhau, fel a ganlyn:

|          |                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|----------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Dogfen 1 | Cais am ganiatâd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i estyn cytundebau ‘Twf’ a ‘Tyfu gyda’r Gymraeg’ – 30 Gorffennaf 2015.                                                                                                                                                                  |
| Dogfen 2 | Papur tystiolaeth drafft i’r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (Cymraeg) – Medi 2015<br><a href="http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s43944/CELG4-22-15%20Papur%201.pdf">http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s43944/CELG4-22-15%20Papur%201.pdf</a> |
| Dogfen 3 | Papur tystiolaeth drafft i’r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (Saesneg) – Medi 2015<br><a href="http://www.senedd.assembly.wales/documents/s43944/CELG4-22-15%20Paper%201.pdf">http://www.senedd.assembly.wales/documents/s43944/CELG4-22-15%20Paper%201.pdf</a>   |
| Dogfen 4 | Cais am ganiatâd y Prif Weinidog a’r Gweinidog Addysg a Sgiliau i ymgymryd â’r broses gaffael ar gyfer cytundeb ‘Cymraeg i Blant’ – 20 Hydref 2015.                                                                                                                                   |
| Dogfen 5 | E-bost gan Swyddfa Preifat y Prif Weinidog at swyddogion Is-adran y Gymraeg, Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, yn cytuno i’r argymhellion yn Nogfen 4 – 4 Tachwedd 2015.                                                                                                          |



|          |                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|----------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Dogfen 6 | Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol – Cyfarfod 13 Ionawr 2016 – briff i'r Prif Weinidog                                                                                                                                                                                 |
| Dogfen 7 | Papur tystiolaeth drafft i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (Cymraeg) – Ionawr 2016<br><a href="http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s47449/CELG4-01-16%20Papur%202.pdf">http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s47449/CELG4-01-16%20Papur%202.pdf</a> |
| Dogfen 8 | Papur tystiolaeth drafft i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (Saesneg) – Ionawr 2016<br><a href="http://www.senedd.assembly.wales/documents/s47449/CELG4-01-16%20Paper%202.pdf">http://www.senedd.assembly.wales/documents/s47449/CELG4-01-16%20Paper%202.pdf</a>   |
| Dogfen 9 | Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol – Cyfarfod 13 Ionawr 2016 – cwestiynau penodol                                                                                                                                                                                      |

Rwyf wedi penderfynu bod rhywfaint o'r wybodaeth yn Nogfen 1 yn esempt o'r gofynion datgelu o dan adran 42 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac felly rhaid ei chadw'n ôl. Mae'r rhesymau dros weithredu'r esemptiadau hyn wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad A y llythyr hwn.

Mae dogfennau 2, 3, 7 ac 8 eisoes ar gael yn gyhoeddus ar wefan Cynulliad Cymru – mae dolenni i'r dogfennau hyn wedi eu cynnwys yn y tabl uchod er hwylustod.

Roedd dogfennau 6 a 9 yn cynnwys gwybodaeth am ystod eang o bynciau i'w trafod gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, gan gynnwys 'Twf' Nid ydw i wedi cynnwys gweddill y dogfennau hyn oherwydd eu bod tu allan i sgôp y cais hwn am wybodaeth.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio [FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk](mailto:FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk)

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane

Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

## **Atodiad A: Adran 42 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**

Rwyf wedi penderfynu cadw'r wybodaeth ganlynol yn ôl:

| <b>Gwybodaeth a gedwir yn ôl</b> | <b>Rhif yr adran ac enw'r esemptiad</b> |
|----------------------------------|-----------------------------------------|
| Dogfen 1 - Cyngor cyfreithiol    | 42 Braint Broffesiynol Cyfreithiol      |

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r rhesymau dros weithredu adran 42 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a'n hystyriaeth ddilynol o Brawf Lles y Cyhoedd.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai cyngor cyfreithiol fod yn esempt o'r gofynion datgelu.

### Adran 42 – Braint Broffesiynol Gyfreithiol

Mae'r esemptiad hwn yn nodi (inter alia):

(1) bod gwybodaeth y gellid cynnal hawliad i frainc broffesiynol gyfreithiol neu, yn yr Alban, i gyfrinachedd cyfathrebu mewn perthynas â hi mewn achos cyfreithiol yn wybodaeth esempt.

Mae braint broffesiynol gyfreithiol yn berthnasol i gyfathrebu rhwng cyfreithwyr a'u cleientiaid at ddibenion cael cyngor cyfreithiol, neu ddogfennau a gaiff eu creu gan neu ar gyfer cyfreithwyr at y prif ddiben o ymglyfreitha. Yn yr achos hwn, yr hyn sydd dan sylw yw cyngor cyfreithiol a ddarparwyd gan gyfreithwyr mewnol ar ymestyn contractau cyfredol 'Twf' a 'Tyfu Gyda'r Gymraeg' tan 31 Mawrth 2016.

Mae esemptiad adran 42 yn amodol, sy'n golygu ei fod yn ddarostyngedig i brawf lles y cyhoedd. Yn yr achos rhwng Bellamy a'r Comisiwn Gwybodaeth, ac yn DTI [EA/2005/0023], nodwyd bod gallu awdurdodau cyhoeddus i gael gafael ar gyngor a oedd yn destun braint broffesiynol gyfreithiol o fudd i'r cyhoedd. Wrth drafod braint broffesiynol gyfreithiol, dywedodd y tribiwnlys:

"there is a strong element of public interest inbuilt into the privilege itself. At least equally strong countervailing considerations would need to be adduced to override that inbuilt interest....it is important that public authorities be allowed to

conduct a free exchange of views as to their legal rights and obligations with those advising them without fear of intrusion, save in the most clear case...”.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bendant ei bod yn hynod bwysig cynnal y frainc broffesiynol gyfreithiol ac, yn absenoldeb ystyriaethau gwrthbwysol sydd o leiaf yr un mor gryf, y byddai unrhyw ymgais i danseilio egwyddor braint broffesiynol gyfreithiol yn andwyol iawn.

Mae angen i gynghorwyr cyfreithiol allu rhoi'r darlun cyflawn i'w cleientiaid, sef Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn yr achos hwn, sy'n cynnwys dadleuon a fydd yn cefnogi'r casgliadau terfynol ac unrhyw wrthddadleuon. Dyma ddiben egwyddor hirsefydledig braint broffesiynol gyfreithiol.

Yn aml, mae cyngor cyfreithiol yn cyflwyno'r dadleuon posibl o blaid ac yn erbyn safbwynt penodol. Os yw'r sawl sy'n cael neu sy'n darparu cyngor cyfreithiol yn credu ei bod yn debygol y caiff y cyngor cyfreithiol ei gyhoeddi, yn enwedig mor fuan ar ôl ei gael neu ei roi, a hynny mewn amgylchedd gwleidyddol cymhleth, mae'n annhebygol y bydd y cyngor a gomisiynir neu a ddarperir yn gynhwysfawr. Byddai hyn yn debygol o fod yn andwyol iawn i ansawdd y penderfyniadau a wneir gan na fyddent yn seiliedig ar yr holl wybodaeth. Byddai hefyd yn tanseilio hyder cynghorwyr cyfreithiol a'u cleientiaid yn amddiffynfa braint broffesiynol gyfreithiol.

At hyn, gallai datgelu cyngor cyfreithiol amharu ar allu llywodraeth i warchod ei buddiannau cyfreithiol – yn uniongyrchol drwy ei gwneud yn agored i gael ei herio'n gyfreithiol, yn annheg felly; ac yn anuniongyrchol drwy leihau ei gallu i ddibynnu ar y ffaith bod y cyngor wedi'i gyflwyno a'i ystyried yn llawn heb ofn na ffafriaeth.